# 3 Llantysilio



## Coedlannau, gwlad agored a golygfeydd da

**Pellter:** 5km / 3 milltir

**Amser:** Tua 2 awr

**Parcio a chychwyn:** Cyferbyn â Chapel Hermon, Rhewl

**Cyf. Grid:** SJ182449, Map OS Explorer 256

**Graddfa:** Cymedrol - taith fer ond un allt serth a hir

**Cyfleusterau:** The Sun Inn, Rhewl

## Wooded valley and open moorland with breathtaking views

**Distance:** 5km / 3 miles

**Time:** Allow 2 hours

**Parking and start:** Opposite Capel Hebron in Rhewl

**Grid ref:** SJ182449, Explorer map 256

**Grade:** Moderate - short but a long, steep ascent

**Facilities:** The Sun Inn, Rhewl






## Y Daith Gerdded

Mae rhan o'r daith gerdded hon yn dilyn Llwybr Dyffryn Dyfrdwy, sy'n llwybr arwyddedig o 24km/15 milltir yn edrych ar ochr hardd ogleddol Dyffryn Dyfrdwy. Gallwch gerdded rhannau ohono gan gysylltu â rheilffordd stem Llangollen. Mynnwch gopi o'r llyfryn Llwybr Dyffryn Dyfrdwy o Ganolfan Groeso Llangollen neu ewch i **www.deevalleywalks.com**

**1.** Gan wynebu'r capel, trowch i'r chwith a cherdded ar hyd y ffordd a heibio'r lloches fysiau. Ar y fforch yn y ffordd, tueddwch i'r dde a heibio'r blwch ffonio sydd ar y dde a'r Sun Inn ar y chwith. Daliwch ymlaen i fyny'r ffordd. Anwybyddwch y llwybr ar y chwith heibio'r tai, gan ddilyn Llwybr Dyffryn Dyfrdwy (LlDD). Ar y fforch nesaf, ewch ymlaen (LlDD) ar i lawr. Anwybyddwch y fforch ar y dde a'r arwydd Cae Llywelyn a Tyn y Mynydd. Ar waelod yr allt, dilynwch y ffordd i'r chwith gan fynd heibio tai ar y dde. Ewch ymlaen ar y ffordd, drwy giât, gan ddringo'n raddol.

**2.** Trowch i fyny i'r dde oddi ar y ffordd drwy'r giât â'r arwydd Bwlch y Garnedd (gan adael LlDD). Cerddwch i fyny'r llwybr llydan. Anwybyddwch y llwybrau ar y naill ochr a'r llall nes cyrraedd tŷ Bwlch y Garnedd. Cymrwch y llwybr sydd ar ochr chwith yr adeilad cerrig a mynd drwy'r giât i'r llwybr ffensiedig sydd rhwng coedlan a chae. Ar ddiwedd y llwybr hwn, ewch drwy'r giât ac i'r mynydd agored. Dilynwch y llwybr hwn gan wyro i'r chwith a symud oddi wrth y ffens. Daliwch ar i fyny ar hyd ochr y bryn. Ewch dros y gamfa a dilyn y llwybr nes cyrraedd llwybr llydan. (I gael golygfeydd gwych ewch ar i fyny i'r chwith neu i'r dde i ddringo i Foel y Gaer neu Foel Gamelin.)

**3.** Trowch i lawr i'r dde a dilyn y llwybr llydan ar i lawr gan gadw'r ffens ar eich llaw dde am tua 1.3km. Wrth ichi gerdded i lawr bydd tomenni Chwarel Berwyn ar eich chwith. Ar waelod y llwybr cerrig, croeswch y gamfa/giât a dilyn y ffordd darmac i lawr am tua 800m yn ôl i'r man cychwyn.



# Llantysilio

## The Walk

Part of this walk follows the Dee Valley Way, a 24km/15 mile waymarked route that explores the beautiful northern side of the Dee Valley. You can walk it in sections linking with the Llangollen Steam Railway. Pick up a copy of the Dee Valley Way booklet from the TIC in Llangollen or download it from www.deevalleywalks.com



*Tinwen y garn*
*Wheatear*

**1.** Facing the chapel, turn left and walk along the road past the bus shelter. At the fork in the road bear right past the telephone box on the right and the Sun Inn on the left. Continue up the road, ignoring road on left past houses, following the Dee Valley Way (DVW). At the next fork continue ahead downhill (DVW), ignoring right fork signed Cae-Llywelyn and Tyn y Mynydd. At bottom of the hill follow the road round to the left passing cottages on the right. Continue along the road slowly climbing.

**2.** Turn right off the road through a gate signed Bwlch y Garnedd (leaving the DVW). Walk up the track, ignoring paths on both sides, until you reach the house, Bwlch y Garnedd. Go to the left of a stone building then go through a gate onto a fenced path between woodland and a field. At the end of the path go through a gate onto open moorland. Follow the path bearing left, climbing steadily uphill and moving away from the fence. Continue climbing steeply across the hillside. Cross a stile and follow the path ahead to reach a broad track. (For superb views it's worth detouring left here to a track junction and then turning left or right to climb to the summit of Moel y Gaer or Moel Gamelin.)

**3.** Turn right and follow the track downhill, keeping the fence on the right, for approximately 1.3km. As you descend the spoil heaps of the Berwyn slate quarries can be seen on the left.

At the bottom of the stony track cross the stile/gate and follow the tarmac road downhill for approximately 800m back to your starting point.



***The Sun Inn, Rhewl***
*Mae'r Dafarn y Porthmyn hon o'r 14 ganrif yn cynnig tamaid a bwyd cartref. Ar agor Llun- Sadwrn 12-2:30pm a 6-11pm a drwy dydd Sul. Yn ystod gwyliau'r haf, drwy'r dydd Gwener, Sadwrn a Sul. Ffôn: 01978 861043*

***The Sun Inn, Rhewl***
*This 14th C at 12-2:30pm and 6-11pm & all day Sunday. During summer holidays all day Fri, Sat and Sun. Tel: 01978 861043*

## *Chwareli Llechi*

*O lechi y ffurfiwyd y mynyddoedd hyn. Tua 420 o filiynau o flynyddoedd yn ôl, llaid trwchus ar waelod y môr dwfn roedd y bryniau hyn. Yna fe symudodd Cymru dros y Ddaear ac i'r gogledd. Gwasgwyd y creigiau, a'u plygu a'u codi drwy symudiadau aruthrol y ddaear gan eu troi o gerrig llaid i lechi.*

*Bu pobl yn cloddio'r llechi hyn ers canrifoedd, ar yr wyneb ac o dan y ddaear fel ei gilydd. Mae Chwarel Y Berwyn ar Fwlch yr Oernant yn dal i weithio ar raddfa fechan, ac mae'r tomenni gwastraff sydd ar ochr y bryn yn dyst i chwarela ar raddfa fwy o lawer yn ystod yr 19eg a'r 20fed ganrif. Roedd nifer o chwarelwyr yn byw yn Rhewl gan gerdded i fyny i'r chwareli ar y mynydd bob dydd.*

## *Slate quarrying*

*These mountains are composed of slate. 420 million years ago these hills were thick mud at the bottom of a deep ocean. Since then, Wales has moved north over the Earth and the rocks have been squeezed, folded and uplifted by huge Earth movements and changed from mudstone into slate. This slate has been quarried for centuries both on the surface and underground.*

*Berwyn Quarry on the Horseshoe Pass still operates on a small scale but numerous spoil heaps on the hillside bear testament to the larger scale of quarrying in the 19th and early 20th centuries. Many quarrymen lived in Rhewl and Llantysilio, walking the hillside tracks to the quarries each day.*

